Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Strategaeth Hybu'r Gymraeg

# Adroddiad Cynnydd - Hydref 2019 - Mawrth 2020

Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

**www.npt.gov.uk**

## Strategaeth Hybu'r Gymraeg

## Adroddiad Cynnydd - Hydref 2019 - Mawrth 2020

Mae cynllun gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros oes y strategaeth, rhwng 2018-2023. O ganlyniad, mae rhai camau gweithredu yn rhychwantu'r cyfnod cyfan ac mae gan eraill ddyddiadau targed penodol – adroddwyd am rai ohonynt y llynedd yn yr adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod – Hydref 2018-Medi 2019.

Mae rhai camau gweithredu, yn enwedig y rheini â dyddiadau targed mwy dybryd, wedi'u cwblhau neu'n gyfredol eu natur. O ganlyniad, bydd angen ystyried diwygio'r cynllun gweithredu – a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adroddiad blynyddol nesaf ar gyfer y cyfnod 2020-2021, sydd i'w gyhoeddi yn hydref 2021

Yng ngoleuni'r cyfnod adrodd byr, prin yw'r cynnydd y gellir adrodd amdano gan yr effeithiwyd arno gan gychwyniad COVID-19 tua diwedd y cyfnod adrodd. Mae hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau a chasglu data ac mae’n parhau i effeithio arnynt.

Bydd unrhyw wybodaeth bellach sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cyfnod 2019-2020 yn cael ei chynnwys yn adroddiad blynyddol 2020-2021.

**Blaenoriaeth Strategol 1 Plant a Phobl Ifanc**

## 1.1 Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar

- Darparom a hyrwyddom gyrsiau, fel PACEY FUN gyda'r cwrs Cymraeg: CAMAU mewn lleoliadau Gofal Plant i ddarparwyr gofal plant.
- Datblygom gwrs 'Cymraeg Bob Dydd mewn Gofal Plant' a oedd i'w gynnwys yn Rhaglen Hyfforddi'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer 2020-2021. Yn anffodus, oherwydd COVID-19 mae hyn wedi'i oedi.
- Rydym wedi parhau i gwblhau gwerthusiadau 'Defnyddio'r Gymraeg mewn Lleoliadau' gyda lleoliadau gofal plant. Anogir yr holl staff gofal plant i gwblhau'r Gwiriwr Lefel Gymraeg CWLWM ar-lein. Mae CMLWM yn bartneriaeth o bum sefydliad gofal plant, Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Pacey, sy'n cydweithio'n agos i sicrhau bod teuluoedd ledled Cymru'n cael cyfleoedd gofal plant a chwarae fforddiadwy, hyblyg o ansawdd sy'n diwallu eu hanghenion.
- Mae nifer y plant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn Dechrau'n Deg wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg yng Nghymru: o 104 yn 2017-2018 i 130 yn 2019-2020 a 76 yn 2017-2018 i 90 yn 2019-2020, yn y drefn honno.
- Rydym yn gweithio i sicrhau bod neges a gwasanaeth cyson yn cael eu cynnig mewn lleoliadau gofal plant ac ysgolion. Roedd Swyddog Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn bwriadu mynd i sesiwn hyfforddiant 'Fflic a Fflac' a ddarparwyd gan ysgolion er mwyn rhoi syniadau a chymorth pellach i leoliadau gofal plant, ond oherwydd cyfyngiadau COVID-19 cafodd y sesiwn ei chanslo. Rydym yn parhau i ddarparu llyfrau stori dwyieithog, annog sesiynau stori Cymraeg ac annog a hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn y lleoliadau. Mae rhagor o adnoddau yn yr arfaeth i gynorthwyo wrth hybu'r Gymraeg.

### 1.2 Addysg - sector cynradd

- Mae'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' wedi'i greu a'i rannu ag ysgolion. Mae gwaith partneriaeth gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot (MICNPT) yn gryf ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ymgysylltu'n dda â MICNPT i ddatblygu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion ar gyfer disgyblion a rhieni. Fodd bynnag, mae angen i ni droi'n sylw at gyrraedd y gymuned ehangach i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach a manteision dwyieithrwydd.
- Dyfarnwyd arian grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella/ehangu cyfleusterau mewn tair ysgol cyfrwng Cymraeg, sef YGG Pontardawe, YGG Cwmllynfell a YGG Tyle'r Ynn. Dechreuwyd ar y gwaith a rhoddwyd dyddiadau cwblhau rhwng 2021-2022. Mae gwaith gwella wedi'i gwblhau yn YGG Castell-nedd gyda gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn YGG Rhosafan.
- Ar hyn o bryd mae saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn dilyn targedau gwobr arian y Siarter Iaith, gyda thair yn dilyn y wobr Aur. Mae bron pob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn cymryd rhan yng nghynllun y Siarter Iaith ar hyn o bryd. Mae Athrawon Bro yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r ysgolion cyfrwng Saesneg i hyrwyddo a datblygu cynllun Siarter Iaith 'Campws Cymraeg' ac yn parhau i annog rhagor o ysgolion i gymryd rhan.
- Mae ein swyddogion datblygu’n parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau continwwm dysgu iaith gwell a mwy uchelgeisiol rhwng y cyfnodau allweddol presennol. Rydym yn gweithio gydag arweinwyr y cwricwlwm i hyrwyddo perthynas fwy ystyrlon rhwng y dysgwr a'r Gymraeg sy'n mynd y tu hwnt i'r ffocws academaidd yn ogystal â gweithio'n effeithiol gyda MICNPT, yr Urdd ac asiantaethau allweddol eraill i sicrhau bod cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu hwyluso a'u hyrwyddo.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi ardaloedd yn y fwrdeistref lle gellir datblygu addysg cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, effeithiwyd ar y gwaith hwn yn ystod chwarter olaf 2019-20 oherwydd COVID-19.

### 1.3 Addysg - y sector uwchradd

- Mae is-grŵp o fforwm WESP yn parhau i weithio ar adolygu a gwella'n gwefan i ddarparu gwybodaeth briodol am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a'u hyrwyddo.
- Roedd cyfraddau trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ne-ddwyrain y fwrdeistref sirol (YGG Castell-nedd, YGG Tyle'r Ynn ac YGG Rhosafan) i Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn uchel iawn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019-2020. Disgwylir y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau trosglwyddo dros gyfnod o 6 blynedd a thu hwnt.
- Roedd cyfraddau trosglwyddo rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg yng ngogledd-orllewin y fwrdeistref sirol, ardal sy'n cael ei hystyried yn draddodiadol fel bro Gymreig yr awdurdod, i Ysgol Gymraeg Ystalyfera wedi cynyddu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019-2020. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y clwstwr effeithiol a'r gwaith pontio parhaus rhwng ysgolion cynradd ac Ysgol Gymraeg Ystalyfera.
- Cyflwynodd gweithwyr ieuenctid Cymraeg eu hiaith sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc i ddisgyblion YGG Gwauncaegurwen, YGG Pontardawe ac YGG Trebannws. Mae'r sesiynau hyn yn helpu ysgolion a phobl ifanc i adnabod unrhyw ofalwyr ifanc fel y gallant gael cymorth ychwanegol.
- Roedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn allweddol wrth ddarparu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg a gwybodaeth am ddiwylliant a threftadaeth Cymru i blant uwchradd. Mae ei waith wedi cynnwys:
    - Cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn ymwneud â diwylliant Cymru mewn clybiau ieuenctid ar draws y sir gan gynnwys: Cwisiau Cymraeg yn y Creunant, Blaendulais a Thai-bach, Bingo Cymraeg ym Mryncoch a Glyn-nedd a gwneud pice ar y maen yn Nhai-bach
    - Prynwyd gêm Scrabble Cymraeg i'w defnyddio yng Nghlwb Ieuenctid Cwmllynfell a chynhaliwyd Gweithgareddau Rygbi'r Chwe Gwlad yng Nghlwb Ieuenctid Bryn

- Dydd Gŵyl Dewi - darparwyd pecynnau i bob clwb ieuenctid a oedd yn cynnwys bylbiau cennin Pedr, bagiau hesian a thagiau rhodd. Y syniad oedd y byddai'r bobl ifanc yn tynnu llun symbol cenedlaethol ar y bag hesian, yn rhoi bỳlb y genhinen Bedr y tu mewn, yn ysgrifennu nodyn ar y tag rhodd ac yn rhoi'r bỳlb fel rhodd i rywun ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi: dewisodd rhai pobl ifanc ysgrifennu eu neges yn Gymraeg. Y rhesymeg y tu ôl i'r pecynnau oedd rhoi cyfle i bobl ifanc wneud rhywbeth wrth drafod traddodiadau ac arferion Cymru. Roedd hefyd yn gyfle i bobl ifanc blannu cennin Pedr y gellir eu mwynhau bob blwyddyn ar adeg Dydd Gŵyl Dewi.
- Dydd Santes Dwynwen - darparwyd pecynnau gwneud cannwyll a thaflen wybodaeth am stori Santes Dwynwen i glybiau ieuenctid. Cefnogwyd y bobl ifanc i greu canhwyllau coch a'u rhoi mewn blwch cyflwyno ynghyd â'r daflen wybodaeth am stori Santes Dwynwen, gan ddarparu cyfleoedd unwaith eto i drafod traddodiadau ac arferion Cymru.
- Cyflwynodd sawl clwb ieuenctid gwrs Agored Cymru ar Draddodiadau ac Arferion Cymru. Yn anffodus, oherwydd y bu'n rhaid cau clybiau ieuenctid sawl wythnos yn gynnar o ganlyniad i'r pandemig nid oedd y bobl ifanc wedi gallu cwblhau'r cwrs.
- Cyflwynwyd cwrs preswyl Cymraeg i bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn Llangrannog. Cymerodd bobl ifanc ran yng nghwrs Agored Cymru ar Draddodiadau ac Arferion Cymru. Cyflwynwyd y cwrs yn Gymraeg gan Weithwyr Ieuenctid Cymraeg eu hiaith. Cafodd y bobl ifanc gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad cymdeithasol drwy gydol y cwrs preswyl.
- Penodwyd gweithiwr gweithgareddau Cymraeg i weithio'n bennaf yng Nghlybiau Ieuenctid Cwmllynfell ond mae hefyd yn darparu sesiynau yng Nghlybiau Ieuenctid Blaendulais a'r Creunant. Cynhelir yr holl weithgareddau'n ddwyieithog ynghyd â sgyrsiau a gynhelir yn Gymraeg rhwng siaradwyr Cymraeg.

- Fel rhan o'u Bagloriaeth Cymru cefnogwyd pobl ifanc o Ysgol Gyfun Ystalyfera gan Glwb Ieuenctid Cwmllynfell a chawsant leoliadau gwirfoddoli gyda'r clwb. Fe'u hanogwyd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu

lleoliad a chyflwynwyd amrywiaeth o weithgareddau i aelodau'r clwb, fel cyfle i weini yn y siop fwyd a helpu i wneud posteri dwyieithog yn hyrwyddo gweithgareddau, ymysg gweithgareddau eraill.

- Cynhaliodd disgyblion Blwyddyn 12, a gyflogwyd gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar y pryd, wasanaeth yn Ysgol Gyfun Ystalyfera ar gyfer disgyblion blwyddyn 11, i hyrwyddo clybiau ieuenctid, swyddi gwaith ieuenctid a hefyd ddangos i ddisgyblion bod y Gymraeg yn cael ei gwerthfawrogi yn y gweithle.
- Erbyn hyn, mae gan y Cyngor Ieuenctid gynrychiolydd y Gymraeg a'i rôl yw meddwl am ffyrdd o helpu i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru a helpu i nodi unrhyw broblemau y mae pobl ifanc yn eu profi mewn perthynas â'r meysydd hyn.

**Blaenoriaeth Strategol 2. Teuluoedd**

**2.1 Trosglwyddo Iaith yn y Cartref**

- Mae cyrsiau mynediad agored yn cael eu hyrwyddo i bob lleoliad gofal plant o hyd.
- Mae Croesi'r Bont yn parhau i weithredu yn yr holl Gylchoedd Meithrin ac yn Georgie Porgie's, Tir Morfa.
- Mae gwaith i ddod o hyd i leoedd a gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau Ti a Fi, a'u sicrhau, wedi'i atal am y tro yn sgîl cychwyniad y pandemig, ond mae gwaith hyrwyddo'r Gymraeg wedi parhau gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

**Blaenoriaeth Strategol 3 Cymunedau**

**3.1 Y Gymraeg yn y Gymuned**

- Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi gwag yn unol â Safonau'r Gymraeg ar ein tudalen swyddi bwrpasol sydd ar gael drwy'r fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

**3.2 Cymraeg yn y Gweithle**

- Rydym yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol am gynnydd mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro'n fewnol, drwy ymarferion siopwyr dirgel ac adolygiadau o wasanaethau, yn ogystal â chan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'i ddyletswyddau rheoleiddio. Er mwyn mynd i'r afael â materion a nodwyd drwy ymarferion profi cydymffurfiaeth, datblygwyd a darparwyd sesiynau hyfforddi gan MICNPT ym mis Ionawr/Chwefror 2020 i fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth o iaith ac atgyfnerthu gofynion cydymffurfio Yn ogystal, cafodd y Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yr wybodaeth ddiweddaraf am gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â diffyg cydymffurfio a'r camau a gymerwyd i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.
- Mae ein Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn parhau i weithio i hyrwyddo a chefnogi cydymffurfiaeth â'r Gymraeg ymhlith staff. Cyhoeddwyd erthyglau sy'n darparu arweiniad a chymorth yn y cylchlythyr mewnol ar-lein, *In the Loop,* ac mae cymorth a chefnogaeth ar gael ar adran hwb perfformiad y fewnrwyd.
- Mae Adnoddau Dynol yn gallu adrodd ar nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg drwy'r porth gweithwyr. Offeryn hunanwasanaeth yw hwn, sy'n galluogi staff i ddiweddaru data am eu sgiliau Cymraeg. Er nad yw'r holl staff wedi cofrestru ar gyfer y porth gweithwyr, mae 4,000 wedi gwneud hynny hyd yma: roedd 3,377 o ddefnyddwyr gweithredol ym mis Mawrth 2020.

- Cynhaliwyd ymgyrch tymor byr ar gyfer y Diwrnod Hawliau'r Gymraeg cyntaf ar 6 Rhagfyr 2019 i hyrwyddo hawliau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Mae ein prosesau a'n gweithdrefnau Adnoddau Dynol yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg; rydym yn darparu dogfennau cyflogaeth Cymraeg lle bo angen ac yn sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau yn Gymraeg.
- Darparodd ein Hadran Hyfforddi gyfleoedd, e-ddysgu a sesiynau wyneb yn wyneb er mwyn i staff wella'u sgiliau iaith lafar ac ysgrifenedig. Roedd y cyrsiau'n cynnwys:
    - Croeso - Rhannau 1 a 2
    - Croeso Nôl - Rhannau 1 a 2
    - Athrawon - Rhannau 1 a 2
    - Penaethiaid - Rhannau 1 a 2
    - Gwella'ch Cymraeg Ysgrifenedig (Gloywi Iaith)
- Bydd y system Adnoddau Dynol/Gyflogres newydd, a gaiff ei rhoi ar waith yn 2021, yn gyfle i gysoni ei galluoedd â strategaeth sgiliau iaith i'n galluogi i gynllunio a rheoli sgiliau iaith staff.

**Adolygiad canol tymor o'r Cynllun Gweithredu**

Gan fod rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau neu'n parhau, ynghyd ag effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu gwasanaethau, a fydd effeithio'n anochel ar gynnydd yn ystod 2020-2021, mae'n adeg briodol i gynnal adolygiad canol tymor o'r cynllun gweithredu.

Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i sicrhau bod y cynllun gweithredu'n parhau i fod yn berthnasol, bod camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau yn cael eu dileu yn ogystal â sicrhau bod trefniadau casglu gwybodaeth ac adrodd amdani yn briodol.